



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Trefniadau Cymorth i Fyfyrrwyr

Rhaglenni Addysg a Hyfforddiant Cysylltiedig ag Iechyd yng Nghymru

Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Gymraeg hefyd.
This document is also available in Welsh.

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Cyd-destun	3
3. Canfyddiadau allweddol	4
4. Yr ymgynghoriad a gynhaliwyd	4
Man Astudio	5
Lleoliadau Clinigol	6
Sicrhau lleoliadau o safon	6
Rhaglenni sy'n cael eu cefnogi drwy drefniadau presennol Bwrsariaeth GIG Cymru	7
Cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso	8
Trefniadau ariannu ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant ychwanegol	9
Problem ail radd i'r rhai sy'n derbyn cymorth cyllid myfyrwyr	10
Effaith ar Gydraddoldeb	10
Pecyn cymorth myfyrwyr Meddygol a Deintyddol	11
Opsiynau	12

1. Cyflwyniad

Fel Llywodraeth ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i weithredu ar ein huchelgais o sicrhau ffyniant i bawb a chymryd camau mawr i newid ein dulliau o driniaeth i atal.

Mae angen i ni gynnal, a lle'n briodol, cynyddu nifer yr unigolion sy'n dilyn cyfleoedd addysg a hyfforddiant i'w galluogi i gyfrannu at y system iechyd yng Nghymru.

Mae'n bwysig cydbwysu'r lefel o gymorth a ddarperir gan drethdalwyr Cymru gyda'r cyfraniad y mae unigolion yn ei wneud ar ôl cymhwyso at ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru. Mae'n bwysig sicrhau hefyd bod y buddsoddiad rydym yn ei wneud i gefnogi unigolion yn cael ei dargedu mewn ffordd sy'n cynorthwyo drwy gael gwared ar gymaint o rwystrau ag sy'n bosib. I wneud hyn, mae'n rhaid i'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr sydd ar waith fynd i'r afael ag unrhyw faterion y mae myfyrwyr yn eu hystyried yn rhwystrau i astudio. Roedd yr ymgynghoriad ar drefniadau cymorth i fyfyrwyr yn gyfle i wrando ar yr hyn mae myfyrwyr a chyflogwyr yn ei ddweud wrthym am natur y cymorth sy'n ofynnol.

Ar 23 Ebrill, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn parhau ar waith ar gyfer unigolion sy'n dewis astudio rhaglen gymwys cysylltiedig â gofal iechyd sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar **10 Mai 2018** a daeth i ben ar **1 Awst 2018**.

2 Cyd-destun

Mae'n bwysig sicrhau bod y buddsoddiad sy'n cael ei wneud mewn addysg a hyfforddiant gofal iechyd yn darparu'r math cywir o gymorth i annog unigolion i ystyried gofal iechyd fel gyrfa.

Yn Lloegr, disodlwyd cynllun grant Bwrsariaeth y GIG o blaid dull seiliedig ar fenthyciadau. Yng Nghymru, dewisodd gweinidogion Cymru gadw cynllun Bwrsariaeth y GIG ac o 2017/18 ymlaen defnyddiwyd meini prawf newydd ar gyfer Cynllun Bwrsariaeth y GIG a oedd yn golygu mai dim ond yr Unigolion hynny a oedd yn barod i ymrwymo i weithio yng Nghymru am gyfnod penodol ar ôl cymhwyso (e.e. cyflogaeth am ddwy flynedd ar gyfer rhaglen tair blynedd) oedd yn gymwys am becyn mwy o gymorth. Nid yw unigolion nad ydynt yn teimlo y gallant ymrwymo i'r cyfnod penodol hwn o gyflogaeth yn gymwys i dderbyn manteision Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Yn y blynyddoedd dilynol mae trefniadau cynllun Bwrsariaeth y GIG wedi'u trosglwyddo ymlaen, ac yn fwyaf diweddar yn gynharach eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai trefniadau Bwrsariaeth y GIG yn cael eu hymestyn yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau ym mis Medi 2019.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi bod yn gyfle i bwysu a mesur materion amrywiol sydd angen eu hystyried fel rhan o ddatblygiad trefniadau cymorth yn y dyfodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni cysylltiedig â gofal iechyd.

3 Canfyddiadau allweddol

Roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu pynciau amrywiol ac roedd y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys:

- Roedd 96% o ymatebwyr yn cytuno y dylid parhau i gynorthwyo'r rhai sy'n astudio ar raglenni cysylltiedig â gofal iechyd.
- Roedd 87% o ymatebwyr yn cytuno y dylid cydnabod a mynd i'r afael â fformat cyrsiau gofal iechyd drwy unrhyw drefniadau yn y dyfodol.
- Roedd 85% o ymatebwyr yn cytuno y dylai capasiti lleoliadau gael ei arwain drwy broses gomisiynu dan arweiniad AaGIC.
- Roedd 85% o ymatebwyr yn cytuno y dylai unrhyw becyn o gymorth ychwanegol i unigolion barhau i gael ei seilio ar ymrwymiad i weithio yng Nghymru am gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.
- Roedd 52% o ymatebwyr yn cytuno y dylid gwneud eithriad i adael i ddeiliaid gradd gyntaf sydd am astudio am ail radd ar raglen gofal iechyd yn Lloegr gael mynediad i gymorth i fyfyrwyr.
- Roedd 81% o ymatebwyr yn cytuno y dylai cymorth a ddarperir ar gyfer ail becynnau cymorth a pheynnau cymorth dilynol ar gyfer rhaglenni cysylltiedig ag iechyd fod yn amodol ar unigolion yn ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso.
- Roedd 57% o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r rhaglenni cymorth i fyfyrwyr ar gyfer rhaglenni meddygol a deintyddol fod yn gyson â'r rhai ar gyfer rhaglenni eraill cysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol.
- O ran opsiynau ar gyfer y dyfodol, Opsiwn 3 oedd y dewis mwyaf poblogaidd, gyda 40% o ymatebwyr yn cytuno y dylai myfyrwyr Gofal Iechyd dderbyn y pecyn cymorth cynhaliath safonol a gynigir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru, a Bwrsariaeth y GIG i dalu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen gyllid ychwanegol ar gyfer costau ychwanegol ar gyfer lleoliadau clinigol - yn amodol ar gytuno ar gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

4 Yr Ymgynghoriad a Gynhaliwyd

Mae cyfres o weithgareddau ymgysylltu wedi'u cynnal hyd yma, sy'n cynnwys:

- I. Ymgynghoriad ffurfiol
 - II. Dau gyfarfod rhanddeiliaid gyda grwpiau'r iaith Gymraeg
- i) Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol ar agor am 12 wythnos a chafwyd 80 o ymatebion trwy flwch negeseuon ymgynghori dynodedig Cynllun Bwrsariaeth y GIG yng Nghymru a ffurflen ymateb ar-lein. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd yn atodiad A, ac mae tabl ar y tudalennau nesaf yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion.

ii) Yn ogystal â'r ymatebion ffurfiol, cynhaliwyd dau weithdy dros yr haf i nodi ac archwilio'r materion a ystyriwyd yn bwysig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith a'r ddarpariaeth o wasanaeth Cymraeg. Roedd y gweithdai'n cynnwys cynrychiolwyr y sefydliadau canlynol:

- i. Coleg Caerdydd a'r Fro,
- ii. Coleg Gŵyr,
- iii. Mentrau Iaith
- iv. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Unigolion	34
Sefydliadau'r GIG	13
Cyrff Proffesiynol/ Grwpiau Proffesiynol	12
Sefydliadau Addysg Uwch, Cyrff Addysg, Colegau Brenhinol	17
Corff Rheoleiddio	2
Y Trydydd Sector	2
Cyfanswm	80

Mae crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn i'w gweld isod a byddant yn llywio'r broses o ddatblygu trefniadau cymorth y dyfodol.

Cwestiwn 1: *A ddylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth i'r rhai sy'n astudio rhaglenni cysylltiedig â gofal iechyd?*


Roedd 96% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r cymorth barhau.

Man Astudio

Cwestiwn 2: *Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i seilio unrhyw drefniadau Bwrsariaeth sy'n cael eu sefydlu ar gyfer y dyfodol ar gefnogi unigolion sy'n dewis astudio yng Nghymru, waeth o le maent yn hanu?*

Roedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai unrhyw drefniadau yn y dyfodol barhau i gefnogi pob unigolyn sy'n dewis astudio yng Nghymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar ble mae myfyrwyr unigol yn hanu ohono.

Cwestiwn 2



Lleoliadau clinigol

Cwestiwn 3: *Ydych chi'n cytuno y dylai fformat cyrsiau gofal iechyd gael ei gydnabod a chael sylw drwy unrhyw drefniadau yn y dyfodol?*

Cwestiwn 4: *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut i fynd i'r afael â hyn?*

Roedd 87% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cydnabod fformat cyrsiau gofal iechyd a mynd i'r afael â nhw drwy unrhyw drefniadau cymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol. Roedd yr ymatebion yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Pryderon am gyfleoedd i fyfyrwyr ategu eu hincwm gan fod y system cymorth i fyfyrwyr bresennol yn atal myfyrwyr rhag cael gwaith cyflogedig, yn enwedig dros yr haf.
- Awgrymu y dylai cymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol fod ar gael i bawb ac nid i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru'n unig.

O'r 87% oedd yn cytuno â chwestiwn 3, ni awgrymodd 46% unrhyw farn benodol am sut y dylai fformat cyrsiau gofal iechyd gael ei gydnabod a chael sylw trwy unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Roedd y sylwadau a fynegwyd yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) y themâu isod:


- Dylai trefniadau cymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol gynnwys detholiad ehangach o lleoliadau a dull o werthuso lleoliadau yn erbyn profiadau myfyrwyr.
- Dylai cyllid y dyfodol gynnwys costau byw ac nid dim ond Bwrsariaeth y GIG heb ei asesu ar incwm sy'n werth hyd at £9,000 y flwyddyn i fyfyrwyr yng Nghymru (h.y. ffioedd dysgu).
- Rhaid i drefniadau cymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol fod yn gynaliadwy a dim ond rhaglenni sy'n arwain at gofrestru ddylai'r fwrsariaeth eu cefnogi.
- Darparu cymorth gwell i fyfyrwyr hŷn.

Sicrhau lleoliadau o safon

Cwestiwn 5: *Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i reoli capasiti lleoliadau drwy broses gomisiynu, a fyddai yn y dyfodol yn cael ei harwain gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn y dyfodol?*

Roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r capasiti lleoliadau gael ei reoli trwy broses gomisiynu wedi'i harwain gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Cwestiwn 5




Rhaglenni sy'n cael eu cefnogi drwy drefniadau cyfredol Bwrsariaeth GIG Cymru

Cwestiwn 6: *Pe bai Bwrsariaeth y GIG yn parhau yn y dyfodol, pa fethodoleg a ddylid ei defnyddio i benderfynu pa raglenni addysg a hyfforddiant y dylid eu cefnogi drwy drefniadau cymorth i fyfyrwyr iechyd diwygiedig?*

- Cynnal y rhestr gyfredol o raglenni
- Diwygio'r rhestr o raglenni cymwys bob blwyddyn ar sail blaenoriaethau a nodir yn y system iechyd.
- Cytuno ar restr graidd fel un safonol gyda'r potensial i ychwanegu rhaglenni blaenoriaeth yn ôl yr angen.
- Cyfyngu i'r rhaglenni hynny sy'n arwain at gofrestru ac felly ni fydd unigolion yn gallu ymarfer yn eu proffesiwn dewisedig os nad yw'r cymhwyster ganddynt.
- Arall

Roedd dros draean o'r ymatebwyr (38 allan o 80) yn cytuno y dylai rhestr graidd o raglenni addysg a hyfforddiant fod yn un safonol, gyda'r potensial i ychwanegu rhaglenni blaenoriaeth fel bo'r angen. O'r 38 a ymatebodd, roedd nifer fach (6) yn credu y dylai'r rhestr graidd gael ei chyfyngu i raglenni sy'n arwain at gofrestru.



Cwestiwn 7: Oes yna dulliau eraill y gellid eu defnyddio? Os oes, nodwch nhw os gwelwch yn dda.

O'r ymatebwyr, nid oedd gan 63% unrhyw farn. O'r 37% a awgrymodd ddull gweithredu, roedd y sylwadau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i'r awgrymiadau canlynol:

- Dylai dull y dyfodol ystyried demograffeg y gweithle er mwyn gallu rhagfynegi prinder cyllid yn y dyfodol;
- Dylai bod rhestr graidd o bynciau y cytunir arnynt, ond gyda'r hyblygrwydd i ychwanegu rhaglenni blaenoriaeth;
- Yn y dyfodol, dylai timau cynllunio gweithlu'r GIG gael eu cysoni'n well â darparwyr addysg iechyd;
- Dim ond rhaglenni sy'n arwain at gofrestru ddylai fod yn rhan o gymorth y dyfodol.

Cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw becyn cymorth sy'n cael ei roi i fyfyrwyr gofal iechyd barhau i ofyn i unigolion ymrwymo i gyfnod cymesur o gyflogaeth ar ôl cymhwyso yng Nghymru?

Roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso barhau gydag unigolion yn ymrwymo i weithio yng Nghymru am y cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso

yn gyfnewid am becyn cymorth gwell. Roedd 10% yn anghytuno â'r cwestiwn, ac ni chafwyd unrhyw ateb gan 5% arall.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cadw'r cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Dywedodd un ymatebydd fod y broses yn defnyddio cryn dipyn o adnoddau gan awgrymu y gallai droi'n anodd i'w rheoli yn y dyfodol. Awgrymwyd y gellid seilio system y dyfodol ar ofyn i fyfyrwyr ymrwymo mewn modd llai ffurfiol a chynnig rhyw fath o wobr am weithio yng Nghymru ar ôl graddio.

Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y meini prawf ar ôl cymhwyso i gynnwys lleoliadau cyflogaeth eraill?

Cwestiwn 10

Os felly, nodwch y lleoliadau hyn. (Byddai hefyd o fudd pe gallech roi rhesymau dros bob un o'r lleoliadau newydd)

Roedd bron i ddwy ran o dair (65%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ymestyn y meini prawf i gynnwys lleoliadau cyflogaeth eraill, 22% yn anghytuno, 5% yn ansicr ac 8% yn dweud nad oedd yn berthnasol.

O'r 65% oedd yn cytuno, ni wnaeth bron i'w hanner (44%) awgrymu unrhyw leoliadau ychwanegol penodol. Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Cartrefi gofal annibynnol – gan gynnwys gofal yn y gymuned
- Lleoliadau y tu allan i leoliadau clinigol i ddarparu integreiddio i'r sector cyhoeddus
- Unrhyw leoliad sy'n cynnig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Unrhyw leoliad sy'n gweithio tuag at agenda iechyd meddwl
- Sectorau gwirfoddol annibynnol.

Trefniadau ariannu ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant ychwanegol

Cwestiwn 11


Ydych chi'n credu y dylai unigolion sy'n cael cymorth ar gyfer rhaglen gychwynnol allu cael cymorth drwy drefniant Bwrsariaeth i ymgymryd â rhaglenni addysg a hyfforddiant ychwanegol?

Cwestiwn 12

Os ydych, a ydych yn credu y dylid ond cefnogi ail raglen a rhaglenni dilynol pan fo'r system iechyd yng Nghymru yn profi anawsterau â chapasiti'r gweithlu mewn meysydd penodol?

Roedd 85% yn cytuno y dylai unigolion sy'n cael cymorth ar gyfer rhaglen gychwynnol allu cael cymorth trwy drefniant Bwrsariaeth i ddilyn rhaglenni addysg a hyfforddiant ychwanegol. Dywedodd 8% ei fod yn amherthnasol ac ateb 2% oedd 'nac ydw'. Roedd 5% o'r ymatebwyr 'o bosib yn cytuno' gan roi'r rhesymau canlynol:

- Dim ond dan amgylchiadau lle mae angen bodloni anghenion y gwasanaeth fel y nodir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Gofynion y Gymraeg
- Unrhyw leoliad lle mae angen cofrestriad proffesiynol



Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (56%) yn cytuno y dylid ond cefnogi ail raglen a rhaglenni dilynol os yw'r system iechyd yng Nghymru yn cael trafferth denu gweithwyr mewn meysydd penodol.

Fodd bynnag, pe bai'r polisi'n cael ei ddiwygio i gefnogi hyn, awgrymwyd y gall fod angen eithriad arbennig ar fyfyrwyr i gael y pecyn cymorth safonol i israddedigion os bydd Cymru'n dewis cynnwys cyllid myfyrwyr prif ffrwd yn y system gymorth ar gyfer myfyrwyr iechyd (fel yn Lloegr). Roedd bron i draean yr ymatebwyr (40%) yn anghytuno mai dim ond mewn proffesiynau â phrinder y dylid cefnogi ail raglenni a rhaglenni dilynol, a 4% yn rhanedig. Ymhlith y rhesymau a roddwyd oedd:

- Byddai ail raglen yn fyrrach a rhatach mewn cymhariaeth;
- Datblygu gyrfa – dylai'r system helpu gweithwyr proffesiynol i ailhyfforddi;
- Newid mewn amgylchiadau personol.

Problem ail radd i'r rhai sy'n derbyn cymorth cyllid myfyrwyr

Cwestiwn 13

A ddylid cyflwyno eithriad i alluogi deiliaid gradd gyntaf sy'n dymuno astudio ail radd ar raglen gofal iechyd yn Lloegr gael cymorth i fyfyrwyr, tra nad yw myfyrwyr nad ydynt yn astudio cyrsiau gofal iechyd yn gymwys am gymorth ychwanegol?

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (52%) yn cytuno y dylid cyflwyno eithriad i alluogi rhai â gradd gyntaf sy'n dymuno astudio ail radd ar raglen gofal iechyd yn Lloegr, gael cymorth i fyfyrwyr (tra nad yw myfyrwyr nad ydynt yn astudio cyrsiau gofal iechyd yn gymwys am gymorth ychwanegol). Roedd rhyw draean (35%) yn anghytuno gan ddweud na ddylai bod unrhyw eithriad, ac ni chafwyd ateb na barn gan 13%.


Cwestiwn 14

A ddylai'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ail becynnau cymorth a pheccynnau cymorth dilynol ar gyfer rhaglenni cysylltiedig ag iechyd fod yn amodol ar unigolion yn ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl iddynt gymhwyso?

Roedd pedwar o bob pum ymatebydd yn cytuno y dylai'r cymorth a ddarperir i ail becynnau cymorth a pheccynnau cymorth dilynol ar gyfer rhaglenni cysylltiedig ag iechyd fod yn

amodol ar unigolion yn ymrwmo i weithio yma yng Nghymru ar ôl cymhwyso (81%). Ni fynegodd 8% unrhyw farn ac roedd 11% yn anghytuno â'r ymrwymiad hwn.

Cwestiwn 14



Effaith ar gydraddoldeb

Cwestiwn 15


Ydych chi'n credu bod angen ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn yn y dyfodol?

Cwestiwn 16

Os 'ydw', nodwch y materion y dylid eu hystyried.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (55%) yn credu bod angen ystyried materion amrywiaeth a chydraddoldeb wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

Cwestiwn 15



O'r ymatebwyr a nododd faterion penodol i'w hystyried, tynnwyd sylw at y canlynol:


- Gwarchod pob nodwedd gan gynnwys materion mamolaeth a thadolaeth
- Rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru
- Cael gwared ar yr holl rwystrau ariannol – mae'r system bresennol yn ffafrio teuluoedd incwm uwch.
- Rhaid i'r gweithlu adlewyrchu'r gymuned maen ei gwasanaethu, ac mae myfyrwyr hŷn yn hollbwysig i hyn.

Pecyn cymorth myfyrwyr Meddygol a Deintyddol

Cwestiwn 17

A ddylai cymorth i raglenni meddygol a deintyddol israddedig gael eu cysoni â rhaglenni eraill cysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol?

Roedd ychydig dros hanner (57%) yn cytuno y dylid cysoni'r rhaglenni cymorth i fyfyrwyr gyda'r rhai ar gyfer rhaglenni iechyd eraill yn y dyfodol. Nid oedd bron i chwarter yr ymatebwyr (24%) yn cytuno â'r syniad o gysoni cymorth a 15% naill ai heb ateb neu'n methu rhoi sylwadau. O'r 4% oedd yn 'ansicr', roedden nhw'n teimlo y byddai'r proffesiynau hyn yn denu cyflogau uwch na gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, felly byddai'r dyledion benthyciadau uwch yn llai o broblem oherwydd eu henillion posib. Hefyd, awgrymwyd pe bai'r rhaglenni hyn yn cael eu cysoni, y dylai bod gofyniad mwy i weithio mewn practis cyhoeddus yng Nghymru ar ôl cymhwyso.



Opsiynau

Cwestiwn 18

Pa un o'r opsiynau a gynigir sydd fwyaf priodol ar gyfer cynnal gweithlu'r GIG yng Nghymru yn yr hirdymor?

Opsiwn 1: Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr, drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn yr un ffordd â myfyrwyr eraill. Ni fyddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Opsiw 2: Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Ni fyddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.


Opsiw 3: Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Opsiw 4: Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol a chyllid rhannol ar gyfer ffioedd dysgu (ee 50%) drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Opsiw 5: Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu costau byw ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Opsiw 6: Myfyrwyr gofal iechyd yn parhau i gael trefniadau cyfredol Bwrsariaeth y GIG – byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Roedd cefnogaeth gref dros opsiwn 3 ymhlith yr ymatebwyr:



Cwestiwn 19

Oes yna opsiynau heb eu nodi a fyddai'n fwy priodol?

Opsiwn 1: I gefnogi myfyrwyr gofal iechyd yn ystod eu hastudiaethau?

Opsiwn 2: I annog myfyrwyr i ddilyn cyrsiau gofal iechyd yng Nghymru?

Opsiwn 3: Ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu GIG yng Nghymru?

O ran opsiwn 1, awgrymodd 22 o ymatebwyr (27%) sut i gefnogi myfyrwyr gofal iechyd yn ystod eu hastudiaethau. Roedd yr awgrymiadau hynny'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Bwrsariaeth I dalu'r cyflog byw
- Costau bwrsariaeth pro rata dros gyfnod lleoliadau clinigol
- Gostwng asesiadau annibynnol myfyrwyr o 36 mis i 24 mis.
- Angen rhagor o ystyriaeth i leoliadau gwledig, gyda rhai myfyrwyr yn talu ddwywaith am lety gan fod lleoliadau'n rhy bell i gymudo iddynt.

Ar gyfer opsiwn 2, fe wnaeth 23 (29%) awgrymu sut i annog myfyrwyr i ddilyn cwrs gofal iechyd yng Nghymru. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Arian ar gyfer cynlluniau mentora fel bod pob Sefydliad Addysg Uwch yn cynnig mentora
- Rhagor o gymorth ariannol at gostau byw a buddion – fel talebau bwyd
- Mwy o lefydd hyfforddi ledled Cymru, yn enwedig y Gogledd
- Mwy o waith marchnata er mwyn dileu'r myth bod angen siarad Cymraeg i weithio yng Nghymru

Yn achos opsiwn 3, fe gyflwynodd 23 (29%) awgrymiadau ar sut i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gweithlu'r GIG yng Nghymru. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Cyfnod cyflogaeth ôl gymhwyso hirach (PQEP)
- Cymorth gwell ar gyfer dychwelyd i ymarfer
- Cymorth ychwanegol tuag at gostau byw
- Mwy o gymorth i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru
- Cynllun ysgoloriaeth ar gyfer y rhai sy'n perfformio orau


Cwestiwn 20

Beth yw eich barn ar y cymorth ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd? A ddylid canolbwyntio ar gymorth ar gyfer ffioedd dysgu neu gostau byw?

Cymysg oedd yr ymateb o ran cymorth tuag at ffioedd dysgu a chostau byw, 34% i'r naill a 40% i'r llall, ac awgrymodd 12% y dylai cymorth y dyfodol gwmpasu'r ddau.

Oherwydd hyd ac amllder lleoliadau wrth astudio, roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai cymorth y dyfodol gynnwys costau byw gan fod lleoliadau yn atal myfyrwyr rhag cael swydd ran amser ar hyn o bryd.

Cwestiwn 20



Atodiad A

Sefydliad	Nifer yr ymatebion
Grŵp Cyngori Arbenigol Sefydlog ar Awdioleg (ASSAG)	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Rheoli'r Fferyllfa a Meddyginiaethau	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Ymateb Nyrsio	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	2
BMA	1
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2
Prifysgol Caerdydd	1
Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe	1
Cyngor Deoniaid Iechyd	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	1
Diverse Cymru	1
Prifysgol Glyndŵr	1
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Nyrsio	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Therapïau a Gwyddorau Iechyd	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Addysg Feddygol	1
Marie Curie	1
National Association of Student Money Advisers (NASMA)	1
Grŵp Cyngori Sefydlog Orthoteg a Phediateg	1
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru	1
NWSSP / WEDS	1
Optometreg Cymru	1
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru	1
Coleg Brenhinol y Bydwagedd	1
Y Coleg Nyrsio Brenhinol	1
Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol	1
Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith	1
Royal College of Surgeons of Edinburgh	1
Prifysgol Abertawe	1
Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe	2
Y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi	1
Coleg Pediatreg	1
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol	1
Prifysgol De Cymru	2
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	1
Pwyllgor Deintyddol Cymru	1
Grŵp Cyngori Arweinyddiaeth Dieteg Cymru	1
Comisiynydd y Gymraeg	1
Pwyllgor Fferyllol Cymru – Prifysgol Caerdydd	1

